

## **CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF**

**COFNODION** o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 22 Awst, 2016 am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL** Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr D Hughes, (Benllech A), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

### **57 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

### **58 COFNODION.**

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016.

## **LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD**

### **59 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.**

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

## **GOHEBIAETH**

### **60 BANC NATIONAL WESTMINSTER.**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan fanc y National Westminster yn rhybuddio'r posibilrwydd o orfod codi llog ar fuddsoddiadau cyfrifon cadw busnesau oherwydd natur isel cyfraddau llog yn gyffredinol. Bydd y Banc yn rhoi 60 niwrnod o rybudd dechrau'r polisi hwn.

## **BILIAU A CHYFRIFON**

### **61 BILIAU**

**PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-**

Edwards Accounting		Paratoi gwybodaeth		£30-00
-----------------------	--	--------------------	--	--------

Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad Norton	£75-99

## 62 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yng Ngorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.**

## 63 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.**

## MATERION CYFFREDINOL

### 64 CYNGOR SIR YNYS MÔN - TOILEDAU CYHOEDDUS.

Trafodwyd llythyr Adran Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn a oedd yn cyfeirio at y cymorth ariannol a fuasai'n deillio i'r Cyngor Cymuned pe baent yn cymered cynnal a chadw un o'r toiledau o fewn ei ddalgylch. Roedd y Cyngor Sir yn cynnig swm cyfartal i'r gost o lanhau am y flwyddyn gyntaf o unrhyw brydles yn unig. Yn 2015/2016 roedd hyn yn £6944-16 i doiled y Sgwâr a £5799-72 i doiled y Traeth.

Yn ogystal cafwyd gair gan y Cyngor Sir fod y cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn hyd y 30 Medi 2016. Fodd bynnag bydd rhaid gwneud penderfyniad pendant ar yr adeg yma. Roedd rhai aelodau yn feirniadol nad oedd digon o amser i ystyried yr holl opsiynau a chyfrifoldebau o gymered y toiled drosodd. Nid oedd pynciau fel glanhau, cynnal a chadw a chasglu arian mynediad wedi eu crybwyll hyd hyn. Mae'r olaf o'r rhain yn golygu cael dau berson i gasglu arian o'r toiled a'i fancio, rhywbeth fuasai raid ei wneud yn aml yn nhymor yr haf.

**PENDERFYNWYD - disgwyl hyd gyfarfod Medi gan obeithio y daw mwy o wybodaeth i'r amlwg, yn enwedig o gyfeiriad Menter Môn sydd yn trefnu cyfarfod i drafod sefydlu grwpiau cymunedol i redeg gwasanaethau lleol.**

## 65 GEMAU'R YNYSOEDD AR YNYS MÔN.

Disgwylid Mr Gareth Parry o'r Cyngor Chwaraeon i roddi cyflwyniad ar Gemau'r Ynysoedd ar Ynys Môn, ond yn anffodus ni wnaeth ymddangos ac ni chafwyd ymddiheuriad ganddo.

## 66 CYNGOR SIR YNYS MÔN - ANFODLONRWYDD GYDA GWASANAETHAU.

Gofynnwyd i'r Clerc roi'r pwnc ar Raglen Awst gan rai aelodau. Fodd bynnag ni wnaed sylw ar ddim yn benodol arwahan i'r Clerc godi'r mater o gais y Cyngor Cymuned i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Eglurodd nad oedd byth wedi cael ateb gan yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â 'r cais am grant tuag at uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng a wnaed ym mis Hydref 2015. Anfonwyd nifer o lythyrau, ebostiau a galwadau ffon yn holi ynglŷn a'r cais. Roedd yn anodd iawn gwneud penderfyniadau am wariant i'r dyfodol ar y Toiledau a'r Llyfrgell heb gael sicrwydd un ffordd neu'r llall am arian unrhyw grant oddiwrth y Cyngor Sir.

## CYNLLUNIO

### 67 CEISIADAU

**PENDERFYNWYD** ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu :

30C795	6 Parc Tyddyn, Traeth Coch
30C737	13 Maes Llydan, Benllech
30C796/TPO	Pant y Coed, Ffordd Cynlas, Benllech.

2. Gwrthod :

30C16Y	Parc Gwyliau St Davids, Traeth Coch - gwrthodir ar sail y niwed gweladwy fuasai'r datblygiad pellach hwn yn ei gael ar yr ardal. Buasai 50 o garafanau sefydlog yn golygu amharu'r olygfa dros 12 mis o bob blwyddyn. O leiaf
--------	---

	<p>yn bresennol mae cyfnodau o'r flwyddyn lle mae'r dirwedd yma yn naturiol. Yn ogystal mae'r ardal hon yn rhan o'r AHNE gyda Llwybr yr Arfordir yn agos. Mae Castell Mawr sydd yn terfynu ar safle yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Daeareg Arbennig. Mae'r aelodau'n teimlo'n gryf fod angen cydbwysedd rhwng gwarchod etifeddiaeth ein Hynys hardd a'r datblygu cynyddol ar y safle hwn.</p>
--	--

## **68 CYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR CYMUNED.**

Adroddwyd er gwybodaeth - awgrymiadau a wnaed gan y Clerc o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor mewn perthynas â cheisiadau i'w trafod yn y Pwyllgor Cynllunio a drefnwyd ar gyfer y 10 Awst 2016. Ni chynhaliwyd y Pwyllgor gan nad oedd cworwm yn bresennol.

Terfynwyd y Cyfarfod am 7-45 yr hwyr.